

Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru 2020/21 – 2022/23

Sefydliad:	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Arweinydd Strategaeth CAYC:	Yr Athro Ian Walsh
E-bost:	ian.walsh@uwtsd.ac.uk
Rhif ffôn:	01792 481282

Adran A: Trosolwg**1. Uchelgeisiau strategol**

Rhowch drosolwg o ddull tair blynedd eich sefydliad [a thu hwnt os oes cynlluniau tymor hwy ar gael] o safbwynt gweithgarwch ymchwil ac arloesi a gaiff ei gefnogi gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC). Efallai y byddwch am amlygu'r meysydd bras yr ydych yn eu targedu, a disgrifio sut bydd cyllid CAYC yn alinio â chenhadaeth eich sefydliad a'ch strategaethau mewnol. [Uchafswm o 300 o eiriau]

Mae'r Brifysgol wedi nodi tri maes strategol allweddol, sef adfywio ac adfer, sgiliau lefel uchel a dysgu gydol oes, a diwylliant a chymuned, lle defnyddir cyllid CAYC i ysgogi newid uchelgeisiol.

Yn gyntaf, mae'r Brifysgol yn cydweithio â'n partneriaid yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe ar nifer o brosiectau adfywio. Bydd Y Drindod Dewi Sant yn buddsoddi cyllid CAYC i dargedu'r gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth hynny o fewn pedair colofn graidd ymchwil cymhwysol lle mae gan y Brifysgol gryfderau:

- Cyfrifiadureg a Gwybodeg
- Adeiladu
- Iechyd a Lles
- Gweithgynhyrchu

Yn ail, mae'r Brifysgol yn ymwybodol iawn o'r angen i ddatblygu dulliau newydd o gynhyrchu gweithlu digidol. Mae newidiadau cyflym mewn tueddiadau cyflogaeth ynghyd â rolau cyflogaeth newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion yn fod yn ddysgwyr gydol oes, yn fedrus wrth uwchsgilio ac yn ailsgilio'n barhaus. Felly, mae'r Brifysgol yn symud i ddatblygu rhaglenni newydd ar gyfer y rhai sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau technegol lefel uwch penodol er mwyn cael gwaith mewn sector arall.

Mae trawsnewid digidol hefyd yn effeithio ar ein cymunedau gwledig. Cydnabyddir bod bwyd a ffermio yn sylfaenol i economi Cymru ac yn hanfodol i ddiogelu a datblygu cymunedau yng Ngorllewin Cymru. Dros y pum mlynedd nesaf bydd y

Brifysgol yn ehangu ei gweithgarwch ymchwil a chyfnewid gwybodaeth i sicrhau effaith a thrawsnewid i'r sector sylfaenol allweddol hwn o economi Cymru.

Yn drydydd, bydd y Brifysgol yn targedu buddsoddiad i gefnogi gwell dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru, ei lle yn y byd a'i gwerth economaidd i'r wlad. Y piler cyntaf yn hyn o beth fu integreiddio ein portffolio celf, dylunio a pherfformiad yn un clwstwr. Bydd hyn yn ein galluogi i ehangu ein gweithgareddau ymchwil a chyfnewid gwybodaeth presennol yn sylweddol yn y maes hwn. Yr ail biler fydd integreiddio gwaith y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd (CAWCS) a gydnabyddir yn rhyngwladol, ac sydd wedi'i lleoli yn Aberystwyth, â phortffolio'r Dyniaethau yn Llambod i greu clwstwr ymchwil o statws byd-eang.

2. Grant Capasiti

Esboniwch yn fras sut mae eich sefydliad yn bwriadu defnyddio'r grant capasiti sydd wedi'i gynnwys o fewn CAYC, a'r Gronfa Datblygu Capasiti Arloesi (ICDF) untro (gweler paragraff 14 yng nghylchlythyr W20/09HE am arweiniad pellach ar y Grant Capasiti). Sut caiff hwn ei ddefnyddio i gefnogi a gwella capasiti a darparu cymhelliant a gwella perfformiad o safbwynt cyfnewid gwybodaeth? [Uchafswm o 300 o eiriau]

Mae Ymchwil Cymhwysol a Chyfnewid Gwybodaeth yn hanfodol i genhadaeth strategol Y Drindod Dewi Sant. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol wrthi'n dechrau gwaith ad-drefnu strategol mentrus ac uchelgeisiol ac yn ehangu ei chanolfannau ymchwil a chyfnewid gwybodaeth. Defnyddiwyd cronfeydd ICDF i helpu i gyflawni'r prif amcan o integreiddio ymchwil, cyfnewid gwybodaeth a datblygu sgiliau lefel uchel i wella cefnogaeth y Brifysgol i ddiwydiant, busnes a gwasanaeth cyhoeddus. Gan adeiladu ar y sylfeini sydd wedi'u gosod dros y saith mlynedd ddiwethaf, mae'r Brifysgol yn symud i drawsnewid ei heffeithiolrwydd yn gyflym wrth ddatblygu gwytnwch economi Cymru.

Mae Grŵp Y Drindod Dewi Sant mewn sefyllfa unigryw yng Nghymru oherwydd lledaeniad daearyddol ei gampysau. Mae gweledigaeth newydd y Brifysgol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd penodol ym mhob lleoliad yn rhan o'i hymgysylltiad strategol ledled Cymru. Yn 2020, cyhoeddodd Y Drindod Dewi Sant gynghair strategol â Phrifysgol De Cymru.¹ Mae hyn wedi arwain at gamau gweithredu ac ymyriadau cydlynol i gefnogi datblygiad Cymru fywiog sydd â phwyslais cryf ar ymchwil cymhwysol a chyfnewid gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar y diwydiant.

Mae'r Drindod Dewi Sant yn meithrin gallu a gwytnwch y sefydliad i gyflawni ei huchelgeisiau i fod yn Brifysgol i Gymru a hwyluso'r gwaith o adfywio economi Cymru.

¹ <https://www.uwtsd.ac.uk/cy/newyddion/datganiadau/datganiadau-ir-wasg-2020/dwy-brifysgol-yn-cynghreirio-i-ddod-a-buddion-economaidd-a-chymdeithasol-i-gymru.html>

Mae'r Brifysgol yn buddsoddi grant capasiti er mwyn:

- Darparu strategaeth fasnacheiddio uchelgeisiol wedi ei chefnogi gan glwstwr arloesi integredig yn Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru sy'n dwyn ynghyd ymchwil, cyfnewid gwybodaeth a hyfforddiant sgiliau lefel uchel. Mae hyn yn adeiladu ar gyllid cyfalaf CCAUC ar gyfer:
 - Gweithgynhyrchu Clyfar,
 - Cerbydau Allyriadau Isel,
 - Sero Net/Ôl-osod,
 - Technoleg Pren;
- Ehangu ei Sefydliad Arfer Cynaliadwy, Arloesi, Ymchwil a Menter newydd i ganolbwyntio gweithgareddau ymchwil a chyfnewid gwybodaeth i sicrhau mwy o waith ymchwil ac incwm masnachol drwy ymgysylltu â'r diwydiant a'r sector cyhoeddus;
- Hyrwyddo cynlluniau â ffocws ar gyfer pob campws, sydd wedi eu datblygu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, er mwyn sicrhau bod ymgysylltiad dinesig y Brifysgol yn cyd-fynd â heriau a chyfleoedd lleol sydd wedi'u nodi'n glir.

Adran B: Cynnwys penodol

3. Masnacheiddio / gweithgarwch cynhyrchu incwm

Nod CAYC yw darparu cymhelliant a gwobrwyo perfformiad, yn arbennig yn nhermau caffael incwm allanol. Amlinellwch gyfeiriad y daith, dros y tair blynedd nesaf, a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) a amlinellir yn 3.1. Rhowch fanylion am feysydd allweddol o fuddsoddiad a thwf. Amlinellwch ble y caiff CAYC ei ddefnyddio i ychwanegu gwerth i weithgareddau presennol, neu sut y bydd yn cefnogi datblygiadau newydd. Ceir arweiniad pellach ar yr adran hon yng Nghylchlythyr W20/09HE. Dylech lunio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cymru. [Uchafswm o 1,000 o eiriau]

Mae'r Drindod Dewi Sant wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd o ansawdd uchel i'w gwneud yn bosibl i ymchwil a'r gwaith o gyfnewid gwybodaeth ffynnu ac i fuddsoddi mewn meysydd o gryfder ymchwil i ddatblygu ei phroffil rhyngwladol ymhellach. Mae hefyd wedi addunedu meithrin disgyblaethau ymchwil newydd mewn meysydd sydd wedi'u targedu gan eu helpu i greu màs critigol, gan ehangu'r ffordd y mae'r Brifysgol yn sicrhau addysgu a chyfnewid gwybodaeth sy'n seiliedig ar waith ymchwil. Felly, mae ymchwil â ffocws yn sylfaen ar gyfer gweithgareddau arloesi, mentergarwch a masnacheiddio'r Brifysgol.

Mae blaenoriaeth dau Cynllun Strategol Y Drindod Dewi Sant yn nodi y bydd y Brifysgol yn **"Sicrhau cynifer o gyfleoedd ag y bo modd i'r holl staff a dysgwyr gymryd rhan mewn ysgolheictod, ymarfer proffesiynol, ymchwil cymhwysol a gweithgareddau masnacheiddio"**. O dan ei is-strategaeth ar gyfer

Mentergarwch a Masnacheiddio, gellir categoraiddio'r gweithgareddau a ddarperir gan Grŵp y Brifysgol, yn fras, mewn pum maes:

1. Gweithgarwch Cyfnewid Gwybodaeth
2. Gweithgarwch Ymchwil Cymhwysol
3. Defnyddio Eiddo Deallusol
4. Addysgu a Hyfforddiant (Di-graidd)
5. Gwasanaethau Masnachol a Thechnegol

O ystyried yr ansicrwydd sy'n deillio o Brexit a Covid-19 byddai gosod targedau rhifiadol penodol ar gyfer twf yn dipyn o fenter hap. Bydd y Brifysgol yn gweithio gyda phartneriaid yn CCAUC, Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei thargedau manwl wrth i'r pandemig presennol ddatblygu. Fodd bynnag, mae gan y Brifysgol uchelgais a gweledigaeth glir ar gyfer trywydd y dyfodol gydag amcanion byrdymor a thymor canolig sydd wedi ei nodi.

Tymor byrrach (cyraeddadwy o fewn y ddwy flynedd gyntaf)

- Rhoi ffocws clir ar ddulliau cynaliadwy a gwyrdd o ymdrin â thechnoleg ddigidol, gwyddoniaeth, diwydiannau creadigol, peirianeg a'r celfyddydau yn unol â Nodau Lles a Ffyrdd o Weithio;
- Hwyluso mwy o gydweithio/cyd-gynhyrchu rhwng mentrau (Mentrau rhyngwladol, BBaChau, busnesau newydd/cwmnïau deillio), y Brifysgol, sefydliadau dinesig a grwpiau cymunedol;
- Meithrin cysylltiadau agosach â'r prif ddiwydiannau mawr a'r sector BBaChau lleol a adeiladwyd ar feysydd cryfder cydnabyddedig fel yr Academi Sgiliau Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch, CBM a MADE;
- Ehangu partneriaeth unigryw'r Brifysgol â'r clwstwr Profi Annistriol sydd gyda'r gorau yn y byd ac sy'n bodoli yn rhanbarth Abertawe;
- Cyflwyno cwricwlwm newydd sy'n gysylltiedig â Llwybr Mentergarwch y Brifysgol i gynyddu'r cwmnïau deillio newydd a'r masnacheiddio ar Eiddo Deallusol;
- Cyflwyno system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) newydd er mwyn gwella integreiddiad a ffocws ymgysylltu'r Brifysgol â'r diwydiant.

Tymor canolig (cyraeddadwy o fewn tua thair i bum mlynedd)

- Cwblhau'r gwaith o ddatblygu adeilad 'Matrics Arloesi' newydd yn SA1 Glannau Abertawe yn rhan o ymrwymiad Y Drindod Dewi Sant i drawsnewid Abertawe yn 'Ddinas Ddigidol' a ariennir yn rhannol gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe;
- Mwy o fusnesau newydd/cwmnïau deillio cynaliadwy gan raddedigion;
- Mwy o fusnesau'n cael cymorth ariannol (SMART, KTPs);
- Mae meddylfryd dylunio a chymhwyso drwy syniadau/technoleg yn dod yn fwy sefydledig ar draws sectorau'r diwydiant;
- Mwy o arbenigedd mewn sectorau allweddol.

Ar hyn o bryd mae gan y Brifysgol bocedi sylweddol o gryfder ar draws ei champysau a'i Hathrofeydd Academaidd. Mae'r rhain wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol fel y gwelwyd yn ffurflenni HE-BCI, safleoedd tablau cynghrair a chyflwyniadau REF.

Mae cyllid Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC) yn cael ei dargedu i adeiladu'r màs critigol angenrheidiol i sicrhau newid trawsnewidiol yn y rhanbarth ac yn genedlaethol dros Gymru gyfan. Uchelgais y Brifysgol yw sicrhau newid sylfaenol yn y sefyllfa sydd ohoni, yn unol â'r Fframwaith Datblygu Economaidd Rhanbarthol, Bargen Ddinesig Bae Abertawe, Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru, a Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021 i 2026 (diweddarwyd 7 Rhagfyr 2021.). Gan dderbyn pedwar piler thematig CCAUC: rhagoriaeth, lle, arloesi a chydweithredu yn sylfeini i adeiladu arnynt, mae'r Drindod Dewi Sant wedi clystyru ei chanolfannau ymchwil a masnacheiddio presennol ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda **Rhwydwaith Arloesi Cymru** i gryfhau ymhellach allu'r Brifysgol i sicrhau incwm ychwanegol drwy ymchwil a gweithgarwch masnachol.

1. Gwybodaeth a Data Artiffisial (gan gynnwys *Awtomatiaeth, Deallusrwydd Artiffisial, Digiddeiddio, Arloesi a Sgiliau*) e.e.
 - a. **Academi Sgiliau Gweithgynhyrchu Uwch**
 - b. Canolfan Gweithgynhyrchu Arloesol ac Arbrofol Cymru (CBM)²
 - c. Dylunio a Pheirianeg Uwch (MADE)³
 - d. Gweithgynhyrchu Clyfar
 - e. Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI)

2. Cymdeithas sy'n Heneiddio, Iechyd a Lles e.e.
 - a. **Canolfan Arloesi Technolegau Cynorthwyol (ATiC)⁴**
 - b. Canolfan Arloesi Cerebra (CIC)⁵
 - c. Academi Iechyd a Llythrennedd Corfforol Cymru (WAHPL)⁶
 - d. Hwb Ymgynghoriaeth Ymchwil a Gwerthuso Seicolegol (PERCH)⁷

3. Twf Glân (gan gynnwys *Datgarboneiddio a Newid yn yr Hinsawdd*) e.e.
 - a. **INSPIRE**
 - b. Canolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru (CWIC)⁸
 - c. Technoleg Pren

² <https://www.cbmwales.co.uk/about/>

³ <https://www.madecymru.co.uk/cy/>

⁴ <https://www.uwtsd.ac.uk/atic/>

⁵ <https://cerebra.org.uk/get-advice-support/cerebra-innovation-centre/>

⁶ <https://www.uwtsd.ac.uk/research/education-communities/wales-institute-for-physical-literacy/>

⁷ <https://www.uwtsd.ac.uk/perch/>

⁸ <https://cwic.wales/cy/>

d. Sero Net/Ôl-osod

4. Dyfodol Symudedd e.e.

a. **Peirianeg Foduro**

b. Dylunio Modurol a Thrafnidiaeth

c. Cerbydau Allyriadau Isel

Cefnogir y rhain drwy gryfhau tîm craidd **INSPIRE** yn y Brifysgol. Bydd y datblygiad yn seiliedig ar waith yr Athrofa Ryngwladol er Datblygiad Entrepreneuriaeth Creadigol (IICED)⁹. Rhoddir cymorth hefyd i glystyru mentrau i greu màs critigol i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd yn yr Economi Sylfaen fel y dangosir gan y fenter fwyd yn Sir Gaerfyrddin a phrosiect Catalydd¹⁰ Interreg.

Y weledigaeth newydd yw eco-system ar gyfer arloesi a masnacheiddio sy'n canolbwyntio'n glir ar ddulliau cynaliadwy, carbon niwtral o ymdrin â thechnoleg ddigidol, gwyddoniaeth, diwydiannau creadigol, peirianeg a'r celfyddydau a fydd yn mabwysiadu'r arfer rhyngwladol gorau gan gynnwys y rhai a nodwyd gan yr UE er mwyn:

- cefnogi mentrau sy'n bodoli eisoes;
- datblygu mentrau newydd sy'n cael eu hysgogi gan wybodaeth;
- arfer cynaliadwy pellach;
- sbarduno datblygiadau cymdeithasol arloesol.

Bydd y strategaeth yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) a amlinellir yn 3.1 drwy ymgorffori masnacheiddio ac entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm craidd. Bydd cymhelliant i'r staff a'r myfyrwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau mentergarwch drwy'r cyfleoedd allanol a ddarperir i ymestyn a herio eu hymchwil neu eu profiad dysgu.

Cymorth CAYC ar gyfer Masnacheiddio

Buddsoddir CAYC i feithrin gallu ac ychwanegu gwerth at waith canolfannau ymchwil a chyfnewid gwybodaeth sy'n bodoli eisoes drwy fuddsoddi yn a chefnogi eu trawsnewidiad tymor hwy i hyfywedd masnachol drwy'r canlynol:

- Cryfhau'r gwaith o adrodd a chofnodi ymgysylltu â busnesau a'r gymuned;
- Cryfhau'r **Tîm Datblygu Prosiectau** i ddarparu capasiti ychwanegol i dargedu ffynonellau cyllid allanol newydd drwy grantiau a chontractau masnachol;

⁹ <https://www.uwtsd.ac.uk/cy/ardec/>

¹⁰ <https://www.uwtsd.ac.uk/research/art-and-design-research/creative-industries-research--innovation-centre/catalyst/>

- Cryfhau gallu a chysylltedd y **Tîm Ymgysylltu â Busnesau** i wella cymorth allanol gan y diwydiant drwy ymchwil cydweithredol, ymgynghoriaeth, trosglwyddo gwybodaeth, hyfforddiant a DPP;
- Cynyddu nifer y Partneriaethau SMART;
- Cynyddu nifer y Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth;
- Gweithio gyda thimau prosiect a ariennir gan yr UE ar hyn o bryd i nodi ffynonellau ariannu amgen ac i gynnal partneriaethau strategol ledled Ewrop.

3.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) strategol eich sefydliad ar gyfer masnacheiddio a gweithgarwch cynhyrchu incwm:

Mae Cynllun Strategol 2017-2022 y Brifysgol yn nodi bod masnacheiddio a chynhyrchu incwm yn flaenoriaeth allweddol. Mae Blaenoriaeth Strategol dau yn nodi, "Cynyddu cyfleoedd i'r holl staff a dysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgolheictod, arfer proffesiynol, **ymchwil cymhwysol a gweithgareddau masnacheiddio**". Mae hyn wedi'i ymgorffori yng ngweledigaeth y Brifysgol i wella cyflogadwyedd a chreadigrwydd, drwy gynnig rhaglenni addysgol sy'n datblygu sgiliau entrepreneuriaid a chreadigol, gan alluogi dysgwyr i gael y cyfleoedd gorau i gael gwaith a chyfrannu at ffyniant eu cymunedau. Mae'r gwerthoedd hyn wedi'u hymgorffori yn y cwricwlwm craidd ar draws pob rhaglen. Drwy gydweithio a pherthnasoedd strategol, mae'r Brifysgol yn gweithio gydag eraill i ddarparu cyfleoedd addysgol a masnachol i staff a myfyrwyr. Y mesurau llwyddiant a nodir yw:

- Gweithredu strategaethau newydd ar gyfer ymchwil, ymchwil cymhwysol a masnacheiddio;
- Cynnydd mewn incwm o weithgareddau ymchwil a masnacheiddio.

Mae'r Brifysgol yn cynnal adolygiadau blynyddol o'r strategaeth ac is-strategaethau cysylltiedig. Asesir cynnydd yn ôl y dangosyddion perfformiad allweddol canlynol:

- KPI 5: Ymchwil Pur a Chymhwysol
- KPI 8: Dysgu ac Addysgu

Yn sail i'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol lefel uchel hyn mae cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol â ffocws ar gyfer Mentergarwch a Masnacheiddio ar draws Grŵp Y Drindod Dewi Sant:

- Sefydlu a chynnal seilwaith masnachol proffesiynol sy'n canolbwyntio ar gleientiaid ar draws y grŵp, gan sicrhau cysondeb o ran ymgysylltu â chleientiaid.
- Datblygu a chynnal ethos o fenter ymhlith staff a myfyrwyr y Grŵp er mwyn adnabod a manteisio ar asedau deallusol a darparu atebion arloesol i gleientiaid masnachol.
- Buddsoddi mewn a datblygu offer ac adnoddau cyfalaf i fod ar gael yn fasnachol i gleientiaid, pan fydd galw.
- Cynyddu'n barhaus yr incwm a gynhyrchir gan weithgarwch mentergarwch a masnacheiddio er mwyn cynyddu arallgyfeirio a sicrhau cynaliadwyedd y grŵp.
- Sefydlu a chynnal partneriaethau ychwanegu gwerth ar draws pob sector o fewn ôl troed y grŵp.
- Cynnal trylwyredd mewn systemau sicrhau ansawdd, cyllidol a llywodraethu gweithgarwch er mwyn diogelu enw da a hyfywedd ariannol y Grŵp.

Mae gan y Brifysgol gynlluniau uchelgeisiol i ehangu ei fframwaith masnachol sy'n gysylltiedig ag anghenion penodol diwydiant ym mhob un o'n lleoliadau campws. Mae'r uchelgeisiau hyn wedi'u lleihau yn sgil parhad pandemig Covid-19. O ganlyniad, mae targedau wedi'u haddasu i adlewyrchu'r realiti presennol. Yn y tymor byr mae'n parhau i gyflwyno heriau i lawer o fusnesau yn y sector peirianeg a gweithgynhyrchu. Yn y tymor canolig i'r hirdymor, wrth i'r economi drosglwyddo i'r dirwedd newydd ar ôl Covid ac ar ôl Brexit, bydd yn darparu twf sylweddol yn y galw am DPP, Partneriaethau SMART a Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTPs) . Bydd y Brifysgol yn cefnogi camau i gynyddu targed y partneriaethau SMART drwy sefydlu lleoliadau ar gyfer graddedigion yn gam tuag at gael eu cynnwys mewn partneriaeth SMART. Drwy ymyriadau wedi'u targedu, nod y Brifysgol yw cyflawni:

- Cynnydd mewn Partneriaethau SMART i 6 y flwyddyn dros dair blynedd;
- Cynnydd mewn Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth i 9 dros dair blynedd

Drwy weithio gyda Phrifysgol De Cymru, bydd y Drindod Dewi Sant yn datblygu mentrau ar y cyd i gynyddu'r nifer o KTPs gweithredol, Partneriaethau SMART a chyfleoedd DPP ehangach.

Adroddir ar ganlyniadau yn erbyn Mesurau Cenedlaethol ac yn achos masnacheiddio fe'u dychwelir yn rhan o adroddiad blynyddol HE-BCI.

Mae'r Brifysgol yn croesawu datblygiad Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN) a fydd yn cryfhau ymhellach allu'r Brifysgol i ddenu incwm ychwanegol drwy weithgarwch ymchwil a masnachol.

Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl diffinio KPIs sy'n benodol i'r Drindod Dewi Sant mewn perthynas â rhwydwaith WIN. Drwy sgysiau gydag Is-Gangellorion, Pro Is-Gangellorion a CCAUC, ceir cytundeb y bydd mesur perfformiad WIN yn cynnwys:

- **Cynnydd sylweddol mewn incwm ymchwil ac arloesi i'r sector yng Nghymru o ganlyniad i geisiadau a gefnogir gan Rwydwaith Arloesi Cymru.** Bydd y Rhwydwaith yn anelu at sicrhau £30m yn ychwanegol i sefydliadau yng Nghymru dros y cyfnod cychwynnol o dair blynedd.
- **Er mwyn cyflawni hyn, fel dangosydd perfformiad allweddol bydd y Rhwydwaith yn anelu at gefnogi nifer o geisiadau dros y cyfnod o dair blynedd gwerth cyfanswm o £30m o leiaf.**
- Yn olaf, byddem yn rhagweld y bydd y fenter, ar ôl dwy a thair blynedd, yn **cynhyrchu adroddiadau ar gyfer Bwrdd WIN, mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n cymryd rhan, yn amlinellu'r ceisiadau a ddatblygwyd gyda'r sector gan gynnwys nifer y partneriaid ym mhob cais.** Byddai'r adroddiadau hyn yn adlewyrchu cynnydd cyffredinol gan gynnwys meithrin perthynas ag UKRI, diwydiant a busnes. Gall yr adroddiadau hyn hefyd amlinellu perfformiad y prif KPIs ar lefel ranbarthol i ystyried sut y profwyd manteision WIN ledled Cymru ac ar draws sefydliadau.

3.2 Sut bydd eich dull strategol yn y maes hwn yn alinio ag Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru gan CCAUC? Dewiswch yr elfennau a gefnogir:

- Rhagoriaeth
- Lle
- Arloesi
- Cydweithredu

3.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer masnacheiddio a gweithgarwch cynhyrchu incwm yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r weledigaeth?

[Uchafswm o 250 o eiriau]

O ystyried effaith Covid-19 bu'n rhaid i'r Brifysgol addasu ei hamcanion byrdymor byr a thymor canolig. Fodd bynnag, mae'n parhau'n ymrwymedig i'w gweledigaeth strategol hirdymor. Mae'r weledigaeth honno, a fynegir yn y cynllun strategol sefydliadol ac a ymgorfforir yn **Strategaeth Mentergarwch a Masnacheiddio Grŵp Y Drindod Dewi Sant**, yn cyd-fynd â gweledigaeth CCAUC ar gyfer Cymru.

Bydd incwm o fenter a masnacheiddio yn hanfodol i gynnal Grŵp y Brifysgol. Bydd incwm o weithgarwch craidd dysgu ac addysgu o dan bwysau wrth i ddysgwyr y

dyfodol geisio dilyn llwybrau amgen. Bydd cyllid ymchwil yr un mor heriol gyda chystadleuaeth gynyddol a llai o argaeledd.

Mae'r Drindod Dewi Sant wrthi'n adeiladu arlwy masnachol newydd ar sail sylfaen ymchwil cymhwysol gadarn gyda meysydd megis ATiC, Profion Anninistriol (NDT) a CBM yn cael eu cydnabod yn rhai rhagorol yn rhyngwladol, gwydn a chynaliadwy. Mae'r Brifysgol wedi amlinellu ei huchelgeisiau ar gyfer adeiladu a chryfhau'r gwaith o greu lleoedd gan ganolbwyntio'n glir ar bartneriaeth ac adeiladu clystyrau ar draws de, gorllewin a chanolbarth Cymru. Gwelir tystiolaeth o hyn yn ei hymdeimlad cryf o gyfrifoldeb dinesig ac ymgysylltiad gweithredol â chymunedau lleol.

Y strategaeth yw adeiladu ar hanes cryf Y Drindod Dewi Sant o bartneriaethau â diwydiant i gefnogi'r gwaith o drawsnewid economi Cymru. Yn y tymor byr manteisir ar gronfeydd strwythurol yr UE o hyd yn ystod y cyfnod pontio ond wrth i'r DU drosglwyddo i statws cysylltiol trydedd wlad bydd y lefelau incwm yn gostwng. Felly, bydd y Brifysgol yn ceisio gwneud yn fawr o'i photensial i gynhyrchu incwm masnachol. Gyda'r dirywiad economaidd disgwylidig yn sgil COVID, bydd angen cymorth ar ddiwydiant, busnes a chyflogwyr ar gyfer ymchwil a datblygu, datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddi staff.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Brifysgol wedi meithrin perthynas ddwyochrog gref â phartneriaid prifysgol ledled Ewrop yn ogystal â Chymru. Sefydlwyd cynlluniau cydweithredu gyda phartneriaid allweddol ar draws ystod o ddisgyblaethau megis mentergarwch, twristiaeth a bwyd, gwyddor bywyd a chelf a dylunio. Ystyrir bod llawer o'r rhain yn sylfaenol i economi Cymru.

Mae'r cydweithredu sylweddol yng Nghymru yn cynnwys Accelerate, Astute 2020 a Sefydliad Awen. Ymhlith y partneriaethau rhyngwladol mae EntreComp, AHEH, Craft Hub a Phartneriaeth Ymchwil Dylunio Gofal y DU-Tsieina.

4. Twf busnes newydd a chefnogi sgiliau

Amlinellwch y cymorth rydych yn bwriadu ei ddarparu ar gyfer busnesau newydd a chwmnïau deillio, ac i gyflawni targedau cynlluniau megis Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid Llywodraeth Cymru. Rhowch wybodaeth am ble y bydd CAYC yn ychwanegu gwerth i weithgareddau presennol, a ble y mae'n eich galluogi i fuddsoddi mewn twf pellach. Ceir arweiniad pellach ar yr adran hon yng Nghylchlythyr W20/09HE. Dylech lunio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cymru. [Uchafswm o 1,000 o eiriau]

Mae entrepreneuriaeth yn rhan annatod o'r Cynllun Strategol sefydliadol ac mae wedi'i chysylltu'n agos â chyflogaeth graddedigion, sgiliau lefel uchel ac agendâu partneriaeth sy'n rhan o bedair blaenoriaeth strategol y Brifysgol. O dan y bedwaredd flaenoriaeth, 'Prifysgol i Gymru', nod y Brifysgol yw 'cyfrannu at

ffyniant, diogelwch a gwydnwch Cymru drwy hyrwyddo sgiliau creadigol, entrepreneuriaeth a chanolfannau technoleg, a thrwy gefnogi graddedigion i ddechrau eu busnesau eu hunain'.

Mae'r cynllun yn rhoi pwyslais mawr ar bartneriaethau strategol yn seiliedig ar sgiliau lefel uwch sy'n seiliedig ar leoedd sydd eu hangen ar ddiwydiant a chyflogwyr. Yng nghyd-destun Y Drindod Dewi Sant mae hyn yn golygu bod y Brifysgol wrthi'n darparu cymorth ar gyfer datblygu busnes newydd ar draws de, gorllewin a chanolbarth Cymru ac yn gweithio gyda staff a myfyrwyr mewn AB ac AU ar draws Grŵp Y Drindod Dewi Sant.

Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn darparu rhaglen lwyddiannus iawn o weithgareddau a ariennir gan **gronfa Entrepreneuriaeth leuencid** Llywodraeth Cymru. Mae'r Brifysgol wedi gosod targed o gefnogi **90** o fusnesau newydd sy'n dechrau dros y cyfnod cyllid grant tair blynedd. Caiff cyllid CAYC ei dargedu at hyrwyddo'r gwaith i sicrhau twf parhaus a chynaliadwy mewn busnesau newydd yn unol â Mesurau Cenedlaethol CCAUC.

Mae strategaeth fenter y Brifysgol yn canolbwyntio ar feithrin gallu staff a thimau ar draws sefydliadau academaidd y Brifysgol. Arweinir y strategaeth yn strategol gan y Pro Is-Ganghellor Sgiliau a Dysgu Gydol Oes, ac yn weithredol gan Reolwr Mentergarwch y Brifysgol. Mae'r Rheolwr Mentergarwch yn gyfrifol am yrru'r Agenda Entrepreneuriaeth leuencid, cysylltu'r eco-system a meithrin gallu a grymuso eraill i ddarparu entrepreneuriaeth.

Mae'r Rheolwr Mentergarwch yn cydlynu gwaith Hyrwyddwyr Mentergarwch Academaidd (HMA) ar draws pob un o dair Athrofa Academaidd y Brifysgol. Mae'r cyllid presennol yn cefnogi Hyrwyddwyr Cysylltiol ac interniaid i gynorthwyo'r rhwydwaith HMA yn eu rôl o ddatblygu'r agenda entrepreneuriaeth yn eu hysgolion a'u canolfannau academaidd perthnasol.

Bydd cyllid CAYC yn adeiladu ar lwyddiant rhwydwaith HMA drwy gynyddu'r gallu i ddarparu gweithdai a sesiynau bwt-camp i ysgogi busnesau newydd graddedigion. Darperir cyllid i dalu am staff HMA i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r Rheolwr Mentergarwch a swyddogion allweddol eraill. Gan adlewyrchu'r model llwyddiannus a ddatblygwyd mewn manau eraill yn y Brifysgol i hybu rhaglenni cyfrwng Cymraeg, mae'r Brifysgol yn bwriadu recriwtio nifer o raddedigion diweddar i weithredu'n Fentoriaid Mentergarwch i Raddedigion. Byddai'r rhain yn cefnogi'r HMA ac yn gweithredu'n bont i'r corff myfyrwyr wrth iddynt ddatblygu eu busnesau eu hunain.

Mae'r rhwydwaith HMA yn gweithredu'n gatalydd, gan ymgysylltu â staff academaidd ychwanegol i weithredu'n hyrwyddwyr 'cyswllt' a fydd yn gallu cael mynediad at DPP i gael achrediad yn yr un modd ag y mae'r Brifysgol yn annog staff i ymaelodi â'r Academi Addysg Uwch. Er y bydd DPP yn canolbwyntio ar yr hyrwyddwyr hyn, bydd y DPP presennol sydd â'r nod o ymgorffori addysg

entrepreneuraidd yn parhau, drwy ein huned datblygu staff a'r uned gwella dysgu. Bydd yr hyrwyddwyr hyn, drwy gefnogaeth graidd y Rheolwr Mentergarwch, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol ac yn ceisio ysgogi cymorth gan y sector preifat.

Yng nghyd-destun twf busnes newydd a chymorth sgiliau defnyddir CAYC i gynyddu cyfranogiad myfyrwyr a staff mewn gweithdai entrepreneuriaeth i gynyddu busnesau newydd. Fodd bynnag, yng ngoleuni Covid-19 bydd y Brifysgol yn targedu'r sectorau hynny y nodwyd eu bod yn rhan o'r Economi Sylfaenol yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021 i 2026 (diweddarwyd Rhagfyr 2021). Bydd hyn yn adeiladu ar ein perthynas bresennol â'n cyn-fyfyrwyr yn y meysydd hyn yn ogystal â rhoi cymorth i'n holl fyfyrwyr.

Mae'r Brifysgol yn adeiladu conffederasiwn strategol o bartneriaid AB ac AU i wireddu gweledigaeth newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol ac ymchwil drosi ledled Cymru. Bydd y conffederasiwn yn darparu rhaglenni sy'n fasnachol berthnasol sy'n diwallu anghenion cyflogwyr ac a ddarperir drwy rwydwaith o ganolfannau rhanbarthol. Mae'r model hwn o bartneriaeth draws-ranbarthol gyda phrif ganolfan a lloerennau wedi'i fabwysiadu'n llwyddiannus gan CWIC (Canolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru). Gan ddefnyddio arfer gorau rhyngwladol, bydd y Brifysgol yn ystyried y cyfleoedd i sefydlu model tebyg i Tknika yn Rhanbarth y Basg, Sbaen.

Cymorth CAYC ar gyfer Twf Busnesau newydd a Chymorth Sgiliau

Bydd CAYC yn ariannu mwy o gymorth i staff a/neu fentrau a arweinir gan fyfyrwyr a masnacheiddio Eiddo Deallusol (ED) ac yn hwyluso datblygiad pellach yr eco-system fenter yn Y Drindod Dewi Sant drwy adeiladu cymunedau o entrepreneuriaid. Cryfhau ein cysylltiadau â chyn-fyfyrwyr sydd wedi dechrau busnesau llwyddiannus i ysbrydoli eraill ac i gefnogi'r graddedigion a'r cyn-fyfyrwyr hynny sy'n chwilio am gymorth i ddechrau neu dyfu eu busnesau.

Yn unol â'r strategaeth hon mae'r Brifysgol wrthi'n ailgynllunio ei chwricwlwm er mwyn adlewyrchu natur esblygol cymdeithas yng nghyd-destun newid byd-eang. O fis Hydref 2020 ymlaen bydd pob myfyriwr yn astudio cyfres strwythuredig o fodylau cyffredin a fydd wedi eu hymgorffori ym mhob cwrs ar draws y Brifysgol. Bydd modylau sy'n anelu at ddatblygu sgiliau bywyd ac entrepreneuraidd allweddol megis datrys problemau, meddwl yn feirniadol a gweithio mewn tîm yn cyfuno â modylau disgyblaeth penodol i sicrhau bod graddedigion yn fwy parod i wynebu heriau'r byd gwaith digidol newydd. Drwy gyflwyno'r model cwricwlwm hwn, bydd y Brifysgol yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu corff o raddedigion a fydd â'r sgiliau i ofyn y cwestiynau cywir iddynt hwy eu hunain ac eraill. Caiff graddedigion eu grymuso i ddatblygu eu syniadau ac ennill y setiau sgiliau cyfathrebu a meddwl dargyfeiriol ar gyfer busnesau newydd a chwmnïau deillio.

Mae Tîm Mentergarwch y Brifysgol sydd wedi'i leoli yn INSPIRE wedi cefnogi'r newidiadau hyn yn y cwricwlwm a bydd yn cefnogi'r cwricwlwm cyffredin newydd

hwn drwy nodi siaradwyr, a gyflwynir gyda phartneriaid cydweithredol yn yr eco-system, darparu mynediad at ffynonellau ariannu a mentora.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddatblygu Arsyllfa Menter Wledig yng Ngorllewin Cymru i gefnogi Bargen Twf Canolbarth a Gorllewin Cymru. Bydd yr Arsyllfa'n adeiladu ar fentrau llwyddiannus fel Prosiectau Ymgysylltu LEADER, 'Canolfan Tir Glas' yn Llanbedr Pont Steffan a 'Diwydiannau Digidol a Chreadigol yr Egin' yng Nghaerfyrddin i ddarparu cefnogaeth i fentrau gwledig.

Yn Abertawe bydd CAYC yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu mannau deori newydd yng nghanol y ddinas ac SA1. Bydd datblygiad SA1 yn rhan o gam nesaf ein hymgysylltiad â'r Fargen Ddinesig ac yn cynnwys y sector preifat. Bydd menter canol y ddinas yn golygu ehangu'r Swigen Greadigol mewn partneriaeth ag Ardal Gwella Busnes Abertawe. Mae'r Swigen Greadigol yn fan hyblyg sy'n ei gwneud yn bosibl 'profi masnachu' drwy redeg siopau, orielau a digwyddiadau dros dro sy'n hogi meddwl entrepreneuraidd ac sy'n arwain at ragor o fusnesau newydd. Caiff CAYC ei ddefnyddio hefyd i ariannu Swigen Greadigol beilot yng Nghaerfyrddin a Llambod er mwyn gwerthuso'r potensial ar gyfer cynnig mwy parhaol.

Mae cyllid CAYC yn hanfodol i feithrin gallu o fewn y Tîm Mentergarwch. Bydd y capasiti ychwanegol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu menter ac wrth sefydlu system **Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM)** i reoli a dadansoddi cyfleoedd busnes newydd. Rhoddir cymorth hefyd i sefydlu ac annog cyfleoedd deillio, masnacheiddio ymchwil, codi ymwybyddiaeth o Hawlfraint ED, meithrin mwy o integreiddio o ran cydweithredu AB ac AU ar draws Grŵp Y Drindod Dewi Sant.

Bydd targedau twf uchelgeisiol (yn amodol ar adolygiad blynyddol) yn meincnodi effaith y strategaeth.

Ymgysylltu: Nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau codi ymwybyddiaeth			
Targed Ymgysylltu	2022	2023	2024
	3000	3000	3000
Grymuso: Nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i gynyddu capasiti entrepreneuriaidd			
Targed Grymuso	2022	2023	2024
	300	300	300
Darparu: Nifer y myfyrwyr sy'n dilysu syniadau busnes neu sy'n profi masnachu			
Targed Darparu - dilysu a phrofi syniadau busnes	2022	2023	2024
	100	100	100
Darparu: Nifer y myfyrwyr a'r graddedigion sy'n cael cymorth i ddechrau busnes (cymorth cyn cychwyn)			
Targed Darparu – meithrin i ddechrau	2022	2023	2024
	80	85	90
Darparu: Nifer y Busnesau a ddechreuwyd			
Targed Darparu – busnesau a ddechreuwyd	2022	2023	2024
	30	30	30
4.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) strategol eich sefydliad ar gyfer twf busnes newydd a chefnogi sgiliau			
<p>Mae Cynllun Strategol 2017-2022 y Brifysgol yn nodi Cyflogadwyedd a chreadigrwydd, drwy gynnig rhaglenni addysgol sy'n datblygu sgiliau entrepreneuriaidd a chreadigol, gan alluogi dysgwyr i gael y cyfleoedd gorau i gael gwaith ac i gyfrannu at ffyniant eu cymunedau yn flaenoriaeth allweddol. Mae Blaenoriaeth Strategol un yn nodi, "Rhoi Dysgwyr yn Gyntaf". Mae Blaenoriaeth Strategol tri yn nodi, "Creu Cyfleoedd drwy Bartneriaethau". Y mesurau llwyddiant a nodir yw:</p>			

1. Cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen o addysg bellach i addysg uwch o fewn Grŵp Y Drindod Dewi Sant – Llinell Sylfaenol 356, Targed 375 (2020-21)*;
2. Cynnydd yn nifer y rhaglenni achrededig a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â chyflogwyr neu mewn ymateb i alw cyflogwyr – Ni osodwyd targed penodol ar gyfer nifer y rhaglenni ond mae targed y prentisiaethau uwch a gradd-brentisiaethau sy'n gysylltiedig â diwydiant (gweler isod) wedi ei bennu
3. Gwell cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith i feithrin medrau ein dysgwyr;
4. Cynnydd yn nifer y prentisiaethau, gan gynnwys prentisiaethau lefel uwch, a gynigir drwy Grŵp Y Drindod Dewi Sant - Llinell Sylfaen 379, Targed 616 (2020-21)*;
5. Cyrraedd targedau penodol ar gyfer recriwtio a pharhad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys dysgwyr israddedig rhan-amser;
6. Dysgwyr sy'n hynu o Gymru o ardaloedd difreintiedig a nodwyd: - Llinell sylfaen 39.1%, Targed 39.1% (2020-21);
7. Dysgwyr sy'n derbyn y Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA) – Llinell sylfaen 11.7%, Targed 12.2% (2020-21)*;
8. Cynnal cyfran ein dysgwyr sy'n ennill gradd anrhydedd dda yn unol â normau'r sector; - Llinell sylfaen 69%
9. Parhau i wella ein perfformiad yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) ac arolygon bodlonwydd eraill;
10. NSS - Llinell sylfaen 84.4%, Targed 86.5% (2020-21)
11. CUG – Llinell sylfaen Rhif 102 (2018-19), Targed Rhif 85 (2020-21);
12. WhatUni – 1af am Gyrsiau a Darlithwyr yn 2019 a 2020
13. Gwelliant yn ein perfformiad yn yr arolwg Cyrchfannau Ymadawyr mewn Addysg Uwch (DLHE) a mesurau eraill o gyflogaeth i raddedigion. Mae'r Brifysgol yn gweithio'n galed i gryfhau ei pherfformiad yn yr Arolwg Hynt Graddedigion newydd yn dilyn y newid mewn methodoleg o'r hen arolwg DLHE.
14. Cyflawnwyd perfformiad cryf parhaus o ran busnesau newydd graddedigion sy'n dal i weithredu ac sydd wedi goroesi o leiaf dair blynedd drwy ddilyn pob busnes newydd gan raddedigion yn systematig; – Meincnod 413. Targed 443 (2020-21)*
15. DPP - cyfanswm nifer y diwrnodau dysgwyr a ddarperir gan Y Drindod Dewi Sant ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac addysg barhaus; - Meincnod 10,135, Targed 10,000 (2020-21)* (wedi'i israddio oherwydd ansicrwydd yn sgil covid a Brexit).

Mae'r Brifysgol yn cynnal adolygiadau blynyddol o'r strategaeth ac is-strategaethau cysylltiedig. Asesir cynnydd yn ôl y dangosyddion perfformiad allweddol canlynol:

- KPI 2: Proffil Academaidd a Sefyllfa'r Farchnad

- KPI 7: Profiad Myfyrwyr

Adroddir ar ganlyniadau yn ôl Mesurau Cenedlaethol ac yn achos masnacheiddio fe'u dychwelir fel rhan o adroddiad blynyddol HE-BCI.

*Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020-21 (Meincnod yn ôl 2017-18)

Noder bod y gwaith o gysoni ac adrodd ar ddata 2020-21 yn digwydd ym mis Tachwedd 2021. O ganlyniad, ni allwn ddiweddarau'r targedau ar gyfer 2021-22. Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i sicrhau twf o flwyddyn i flwyddyn a chynnal ei safle arweiniol yn y DU o ran busnesau newydd gan raddedigion, fel y cydnabyddir gan HESA.

4.2 Sut bydd eich dull strategol yn y maes hwn yn alinio ag Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru gan CCAUC? Dewiswch yr elfennau a gefnogir:

- Rhagoriaeth
- Lle
- Arloesi
- Cydweithredu

4.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer twf busnes newydd a sgiliau yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r Weledigaeth?

[Uchafswm o 250 o eiriau]

O ystyried effaith Covid-19 bu'n rhaid i'r Brifysgol addasu ei hamcanion tymor byr a chanolig. Fodd bynnag, mae'n parhau'n ymrwymedig i'w gweledigaeth strategol hirdymor. Mae'r weledigaeth honno, a fynegir yn y cynllun strategol sefydliadol ac a ymgorfforir yn y strategaeth ymchwil a chyfnewid gwybodaeth, yn cyd-fynd â gweledigaeth CCAUC ar gyfer Cymru.

Mae'r Drindod Dewi Sant yn adeiladu llwybr mentergarwch ac entrepreneuriaeth sy'n adeiladu ar waith yr **Athrofa Ryngwladol er Datblygu Entrepreneuriaeth Greadigol** sy'n cael ei chydabod am ei gwaith arloesol. Mae'r Brifysgol wedi amlinellu ei huchelgeisiau ar gyfer adeiladu a chryfhau'r gwaith o greu lleoedd gan ganolbwyntio'n glir ar bartneriaeth ac adeiladu clystyrau ar draws de, gorllewin a chanolbarth Cymru. Gwelir tystiolaeth o hyn yn ei hymdeimlad cryf o gyfrifoldeb dinesig ac ymgysylltiad gweithredol â chymunedau lleol ac awdurdodau lleol. Mae'r strategaeth newydd yn adeiladu ar hanes cryf Y Drindod Dewi Sant o fenter a dechrau busnes i gefnogi'r gwaith o drawsnewid economi Cymru.

Ar ôl Brexit, mae'r Brifysgol wedi ceisio meithrin perthynas ddwyochrog ac amlochrog gryfach â phartneriaid prifysgol ledled Ewrop yn ogystal â Chymru. Mae'r cydweithredu megis DeuS a PORTALIS wedi helpu i lunio'r strategaeth a sicrhau ei bod yn bodloni uchelgeisiau gweledigaeth CCAUC ar gyfer Cymru. Yn

2021/22 bwriada'r Brifysgol ddatblygu partneriaeth gydweithredol gyda Tknika¹¹ yn Rhanbarth y Basg yn Sbaen i ddatblygu cysylltiadau agosach ar addysg a hyfforddiant galwedigaethol ynghyd ag ymchwil a phrosiectau cyfnewid gwybodaeth.

Ymhlith y cynlluniau cydweithredu sylweddol yng Nghymru mae Accelerate, Astute 2020 a Sefydliad Awen. Ymhlith y partneriaethau rhyngwladol mae EntreComp, AHEH, Craft Hub a Phartneriaeth Ymchwil Dylunio Gofal y DU-Tsieina.

- Cynrychiolwyd Y Drindod Dewi Sant ar bwyllgorau cenedlaethol ar gyfer ymchwil ac arloesi;
- Mae'r Brifysgol wrthi'n ymgysylltu ag Addysg Uwch Cymru Brwsel ac yn ei chefnogi;
- Mwy o gydweithio diwydiannol AU-AB ar draws Grŵp Y Drindod Dewi Sant;
- Ymrwymiad cryf i ddysgu gydol oes.

5. Cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd

Amlinellwch sut bydd CAYC yn cefnogi gweithgarwch parhaus neu newydd ar draws eich cymunedau. Mae cenhadaeth ddinesig sy'n seiliedig ar le yn faes eang sy'n ymgorffori amrediad helaeth o weithgareddau gan gynnwys cymorth yn y gymuned i ddiwallu anghenion sgiliau diwydiant, partneriaethau rhwng addysg bellach ac addysg uwch o safbwynt sgiliau, arloesi ac ymgysylltu, ymgysylltu â'r cyhoedd drwy waith ymchwil, ac wynebu heriau cymdeithasol. Byddai cefnogaeth ar gyfer y gymuned ar safle prifysgol ar gyfer, er enghraifft, digwyddiadau, darlithoedd ac ati hefyd yn fodd o gefnogi cenhadaeth ddinesig. Ceir arweiniad pellach ar yr adran hon yng Nghylchlythyr W20/09HE. Dylech lunio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cymru. [Uchafswm o 1,000 o eiriau]

Sefydlwyd Y Drindod Dewi Sant ar egwyddorion ymgysylltu dinesig lleol. Cafodd pob un o'n prif gampysau yn Llambod, Caerfyrddin ac Abertawe eu sefydlu ar yr egwyddor o ddiwallu anghenion addysgol eu cymunedau lleol. Heddiw, mae'r egwyddorion hynny yn cyd-fynd yn agos â rhai Sefydliad y Prifysgolion Dinesig. Gellir gweld pedair thema'r Sefydliad, sef mynediad a chadw, y brifysgol ddinesig, cyflogadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang wedi eu hadlewyrchu ym mlaenoriaethau strategol y Brifysgol. Mae nod Y Drindod Dewi Sant o 'Roi Dysgwyr yn Gyntaf' yn tynnu sylw at bwysigrwydd hanfodol cynwysoldeb a chyfle, drwy ddileu'r hyn sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan a chefnogi pobl o bob cefndir ac amgylchiad i gyflawni eu potensial. Mae'r Brifysgol yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd sicrhau ei bod yn cyflawni disgwyliadau cymdeithas o ran bod yn esiampl o gyfle a chydaddoldeb.

¹¹ <https://tknika.eus/en/about-tknika/>

Mae'r Drindod Dewi Sant wedi ymrwymo i fod yn Brifysgol *Cymru ac i Gymru*. Mae ein hanes unigryw a'n lledaeniad daearyddol yn golygu bod y Brifysgol wedi meithrin perthynas gref ag awdurdodau lleol yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chaerdydd. Mae Grŵp Y Drindod Dewi Sant yn dwyn ynghyd y Brifysgol, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion ac mae ganddo gysylltiad dinesig agos â chymunedau lleol yn Llanelli, Rhydaman ac Aberystwyth yn ogystal â phrif leoliadau campws y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn gweithio gyda'i Chymdeithasau Cyn-fyfyrywyr megis Cymdeithas Llanbedr Pont Steffan a chyirff cysylltiedig eraill megis cymdeithas cyn-ddisgyblion Ysgol Dinefwr (Old Dy'vorians) yn Abertawe.

Wrth wraidd Cynllun Strategol 2017-2022 y Brifysgol mae ymrwymiad i genhadaeth ddinesig, er lles y cyhoedd yng Nghymru, ei diwylliant, ei threftadaeth, ei hiaith, ac i ffyniant ac iechyd hirdymor ei dinasyddion. Derbynnir ers tro mai'r allwedd i drawsnewid yr economi a chymdeithas yw'r berthynas 'helics pedwarplyg' rhwng y byd academaidd, llywodraeth, diwydiant a phartneriaeth go iawn â chymdeithas ddinesig. Yn y cyd-destun hwn mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gynnal ac ehangu ei phartneriaethau â'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Mae Uwch Swyddogion y Brifysgol yn ymgysylltu'n weithgar â chyirff cyhoeddus, byrddau gwasanaethau cyhoeddus, partneriaethau adfywio ac ardaloedd gwella busnes er mwyn cynnal cysylltiad agos â phob lefel o'n cymunedau.

Adlewyrchiad o'r ymrwymiad hwn yw'r ffaith ei bod wedi rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth galon ei gwaith cynllunio ac mae wedi sicrhau bod ei dyheadau yn cyd-fynd yn agos â'r rhai a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026 (diweddarwyd 7 Rhagfyr 2021) a Fframwaith Cenhadaeth Ddinesig Prifysgolion Cymru . Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i bartneriaeth â SAU eraill drwy'r Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig dan arweiniad Prifysgolion Cymru ac mae wedi buddsoddi mewn cyllid CAYC i gyflogi **Rheolwr Cenhadaeth Ddinesig** yn rhan o Dîm INSPIRE.

Cymorth CAYC ar gyfer Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Caiff cyllid CAYC ei gyfeirio at ehangu cenhadaeth ddinesig y Brifysgol drwy ddyfnhau ac ehangu ei hymgysylltiad â chymunedau, diwydiant, busnes a chymdeithas ddinesig yn ein trefi a'n dinasoedd campws. Mae hyn yn cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Brifysgol i ehangu ei chefnogaeth i fasnacheiddio a thwf busnes newydd. Yn thematig, gellir cywasgu cenhadaeth ddinesig y Brifysgol yn dri maes strategol, adfywio, sgiliau a dysgu gydol oes a diwylliant a chymuned.

Yn gyntaf, mae'r Brifysgol yn cydweithio â'n partneriaid yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe ar nifer o brosiectau adfywio. Yn ystod y 3-5 mlynedd nesaf bydd y Brifysgol yn buddsoddi incwm CAYC i ddatblygu, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, cyflogwyr mawr a Llywodraeth Cymru, seilwaith arloesi a masnacheiddio newydd ac integredig. Ystyrir bod deialog agored â rhanddeiliaid yn hanfodol wrth i'r Brifysgol ail-lunio ei gallu ymchwil ac arloesi i sicrhau effaith gynaliadwy ar draws ein rhanbarth. Bydd Y Drindod Dewi Sant yn

mynd i'r afael â'r heriau mawr a nodwyd gan Lywodraethau'r DU a Chymru gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

1. Cyfrifiadureg a Gwybodeg
2. Adeiladu
3. Iechyd a Lles
4. Gweithgynhyrchu

Yr allwedd i gyflawni'r amcan strategol hwn fydd partneriaeth ag awdurdodau lleol a phartneriaid cyhoeddus a phreifat eraill megis byrddau iechyd, ysgolion yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe.

Yn ail, mae'r Brifysgol yn ymwybodol iawn o'r angen i ddatblygu dulliau newydd o gynhyrchu gweithlu digidol. Mae newidiadau cyflym mewn tueddiadau cyflogaeth ynghyd â rolau cyflogaeth newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion fod yn ddysgwyr gydol oes, yn fedrus wrth uwchsgilio ac yn ailsgilio'n barhaus. Rhagwelir y bydd mabwysiadu dulliau awtomeiddio a deallusrwydd artifisial yn hanfodol ar gyfer goroesiad sefydliadau mewn llawer o sectorau cyflogaeth. Dim ond cyflymu'r broses honno o ran ein dull o weithio a wna pandemig Covid-19, ac mae'n sicr o ddisodli nifer sylweddol o unigolion sydd mewn cyflogaeth ar hyn o bryd. Felly, mae'r Brifysgol yn symud i ddatblygu rhaglenni newydd ar gyfer y rhai sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau technegol lefel uwch penodol er mwyn cael gwaith mewn sector arall. Mae ymgysylltu â chyflogwyr, llywodraeth leol a phartneriaid yn y sector AB yn hanfodol i waith blaengynllunio'r Brifysgol i gynnig cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu sgiliau.

Mae trawsnewid digidol hefyd yn effeithio ar ein cymunedau gwledig. Cydnabyddir bod bwyd a ffermio yn sylfaenol i economi Cymru ac yn hanfodol i ddiogelu a datblygu cymunedau yng Ngorllewin Cymru. Dros y pum mlynedd nesaf bydd y Brifysgol yn ehangu ei gweithgarwch ymchwil a chyfnewid gwybodaeth i sicrhau effaith a thrawsnewid i'r sector sylfaenol allweddol hwn o economi Cymru

Mae'r Brifysgol hefyd yn ymwybodol o'r heriau sy'n effeithio ar ein cymunedau gwledig. Mae gan Gymru gyfran uwch o dir sydd wedi ei neilltuo i gynhyrchu bwyd nag unrhyw wlad arall yn y DU. O ganlyniad, mae'r cyfleoedd masnachol i ehangu sector bwyd cynaliadwy yn rhai sylweddol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried cefnwlad wledig ac amaethyddol campysau'r Brifysgol i raddau helaeth. Cydnabyddir bod bwyd a ffermio yn sylfaenol i economi Cymru ac yn hanfodol i ddiogelu a datblygu cymunedau yng ngorllewin Cymru. Ar hyn o bryd mae gan Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant nifer o raglenni cyfnewid gwybodaeth a datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â'i dri phrif gampws ac ar draws ei leoliadau campws AB sy'n canolbwyntio ar fwyd cynaliadwy a ffermio carbon sero net. Dros y pum mlynedd nesaf bydd y Brifysgol yn ehangu ei gweithgarwch ymchwil a

chyfnewid gwybodaeth i sicrhau effaith a thrawsnewidiad i'r sector sylfaenol allweddol hwn o economi Cymru.

Yn drydydd, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo bywyd a threftadaeth ddiwylliannol eithriadol o gyfoethog Cymru. Felly, bydd y Brifysgol yn targedu buddsoddiad CAYC i gryfhau gallu'r sefydliad i gefnogi mwy o waith i astudio a lledaenu diwylliant Cymru, ei le yn y byd a'i werth economaidd i'r wlad. Bydd Y Drindod Dewi Sant yn ymwneud â grwpiau cymunedol lleol yn ogystal â sefydliadau cenedlaethol, gan adeiladu ar gysylltiadau sefydledig ym mhob un o'n lleoliadau campws ac yn genedlaethol.

Yn nhermau sefydliadol, piler cyntaf hyn fu integreiddio ein portffolio celf, dylunio a pherfformiad yn un clwstwr. Bydd hyn yn cefnogi camau i ehangu ein hymchwil presennol yn sylweddol a chysoni gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth ag anghenion a chyfleoedd ar draws rhwydwaith y Brifysgol o bartneriaid cymunedol a dinesig. Yr ail biler fydd integreiddio gwaith CAWCS a gydnabyddir yn rhyngwladol, ac sydd wedi'i lleoli yn Aberystwyth, â phortffolio'r Dyniaethau yn Llambod i greu clwstwr ymchwil o statws byd-eang. Bydd integreiddio ein gallu ymchwil mewn treftadaeth a diwylliant yn galluogi'r Brifysgol i gefnogi natur unigryw Cymru, ei phobl, ei hiaith a'i diwylliant.

5.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd

Mae Cynllun Strategol 2017-2022 y Brifysgol yn nodi cefnogaeth i ddatblygiad economaidd y rhanbarth drwy ymgysylltu'n strategol â phartneriaid busnes a dinesig a gwella ein hymgysylltiad â chyn-fyfyrwyr a graddedigion yn rhai sydd wrth galon cenhadaeth y Brifysgol. Mae'n nodi pwysigrwydd gweithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol lle mae gennym gampysau i sicrhau'r manteision mwyaf posibl drwy bartneriaethau daearyddol. Oddi mewn i Gynllun Strategol y Brifysgol, mae blaenoriaeth tri yn nodi, "**Creu Cyfleoedd drwy Bartneriaethau**". Y mesurau llwyddiant a nodir yw:

- Cydweithio ymhellach â Choleg Gŵyr Abertawe ar ddarparu llwybrau datblygu sgiliau a rhannu adnoddau mewn peirianeg fodurol.
- Ehangu cydweithio ag ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin i ddatblygu darpariaeth gydweithredol Blwyddyn 12/13 mewn Gweithgynhyrchu Uwch a Digidol drwy gyfrwng y Gymraeg i ganiatáu symud ymlaen i raglenni Prentisiaeth Gradd.
- Parhau â'r trefniadau 'Adduned' gyda phartneriaid awdurdodau lleol;
 - Yn 2015 llofnododd y Brifysgol gyfres o 'addunedau' gyda Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Sir Gaerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion. Mae'r gwaith hwn yn parhau ar nifer o lefelau oddi mewn i'r Brifysgol gan

gynnwys drwy Swyddfa'r Is-Ganghellor a gwaith Profostiaid y Campysau.

- Ymgysylltu'n weithredol â'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol.
- Parhau i gynrychioli ac ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyfrannu at Gynlluniau Llesiant Lleol.
- Cyflawni ein rhwymedigaethau o dan Fargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe;
 - Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn gweithio ochr yn ochr â Chyngor y Ddinas a Bwrdd y Fargen Ddinesig i ddatblygu canolfan arloesi newydd yn SA1 Abertawe yn rhan o fenter Abertawe Ddigidol.
- Cyrraedd targedau penodol ar gyfer recriwtio dysgwyr byd-eang;
 - Mae'r Brifysgol yn parhau i atgyfnerthu ei rhwydwaith o bartneriaid cydweithredol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod o'r safon academaidd uchaf.
- Sefydlu partneriaethau newydd gyda chyn-ganolfannau cydweithredol dethol Prifysgol Cymru a chyflawni canlyniadau sicrhau ansawdd boddhaol mewn unrhyw adolygiadau allanol o'r partneriaethau hynny.

Mae'r Brifysgol yn cynnal adolygiadau blynyddol o'r strategaeth ac is-strategaethau cysylltiedig. Asesir cynnydd yn ôl y dangosydd perfformiad allweddol canlynol:

- KPI 4: Sefydlu Proffil Rhyngwladol

Mae'r Brifysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran adeiladu proffil rhyngwladol drwy ymrwymo i bartneriaethau rhyngwladol, drwy gynnal arddangosfeydd sy'n ymweld a chreu cyfleoedd ar gyfer cyfnewid staff a myfyrwyr yn rhyngwladol. Mae hyn yn gynyddol bwysig ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Er nad oes targedau penodol o dan y Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn, caiff y targed ei fesur yn ansoddol gan nifer, ystod a dyfnder y partneriaethau a'r trefniadau cyfnewid rhyngwladol.

Adroddir ar ganlyniadau o ran Mesurau Cenedlaethol a'u dychwelyd yn rhan o adroddiad blynyddol HE-BCI.

5.2 Sut bydd eich dull strategol yn y maes hwn yn alinio ag Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru gan CCAUC? Dewiswch yr elfennau a gefnogir:

- Rhagoriaeth
- Lle
- Arloesi
- Cydweithredu

5.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r weledigaeth?

[Uchafswm o 250 o eiriau]

Mae'r Brifysgol wedi amlinellu ei huchelgeisiau ar gyfer adeiladu a chryfhau'r gwaith o greu lleoedd a chenhadaeth ddinesig gan ganolbwyntio'n glir ar bartneriaeth ac adeiladu clystyrau ar draws de, gorllewin a chanolbarth Cymru. Gwelir tystiolaeth arbennig o hyn yn ei hymdeimlad cryf o gyfrifoldeb dinesig ac ymgysylltiad gweithredol â chymunedau lleol. Mae'r Brifysgol yn canolbwyntio ac wedi ymrwymo i greu lleoedd a phartneriaeth ddinesig. Drwy gysylltu ei strategaethau ar gyfer ymchwil cymhwysol, masnacheiddio a datblygu busnes yn benodol ag anghenion y rhanbarth mae'n adeiladu ar hanes cryf Y Drindod Dewi Sant o fenter a dechrau i gefnogi'r gwaith o drawsnewid economi Cymru.

Mae uchelgeisiau strategol y Brifysgol ar gyfer ymchwil yn deillio o ymrwymiad cryf i sicrhau bod ein hymchwil yn cael ei gymhwyso i fynd i'r afael ag anghenion hirdymor y cymunedau a wasanaethwn. Mae'r rhain yn cyd-fynd â gweledigaeth CCAUC ar gyfer ymchwil ac arloesi yng Nghymru.

Mae'r Brifysgol yn benderfynol o adlewyrchu uchelgeisiau ein cymunedau a'n partneriaid dinesig i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ac ymchwilwyr y presennol a'r y dyfodol. Cyfleoedd yw'r rhain sydd wedi'u gwreiddio yn anghenion ein cymunedau, ond sydd o bwys byd-eang. Mae nodau strategaeth Ymchwil ac Arloesi CCAUC ynghyd â'r Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ffurfio egwyddorion arweiniol ar gyfer gweledigaeth y Brifysgol o Brifysgol i Gymru a'i Phobl sy'n ymateb i anghenion cymdeithas ac sy'n cyflawni newid trawsnewidiol. Drwy ein Cenhadaeth Ddinesig mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i adeiladu ymdeimlad cryf o le gan ganolbwyntio'n glir ar bartneriaeth a chlystyrau.

Adran C: Alinio â pholisi a blaenoriaethau

6. Polisi Cymru a'r DU

Disgrifiwch sut mae eich strategaeth CAYC yn alinio â pholisïau rhanbarthol, Cymru a'r DU sy'n seiliedig ar le, megis, er enghraifft, bargeinion twf dinas-ranbarth lleol / rhanbarthol; Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar yr economi; Strategaeth Ddiwydiannol y DU; Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; Sefydliad Prifysgolion Dinesig UPP; Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid; Gwyddoniaeth i Gymru; Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ac ati.

[Uchafswm o 500 o eiriau]

Mae strategaeth CAYC y Brifysgol yn nodi bod creu lleoedd yn flaenoriaeth strategol. Mae ôl troed daearyddol unigryw'r Brifysgol yn golygu bod angen iddi gysylltu ag awdurdodau lleol, partneriaid yn y sector preifat a'r trydydd sector ledled de a gorllewin Cymru.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i roi blaenoriaeth uchel i fywyd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein cymunedau lleol yn Llambod, Caerfyrddin, Abertawe a Chaerdydd.

Bydd cyllid CAYC yn cefnogi'r gwaith o ad-drefnu ac ehangu'r fframwaith ymchwil a chyfnewid gwybodaeth sy'n sail i fentrau'r Brifysgol ar gyfer y Fargen Ddinesig. Aeth y Brifysgol ati'n llwyddiannus i gyflwyno'r Egin¹², y ganolfan cyfryngau gwerth miliynau o bunnoedd yng Nghaerfyrddin yn rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae tenantiaid ym mhob swyddfa yn y ganolfan ac mae wedi dod yn rhan allweddol o dirwedd y cyfryngau Cymraeg yng Nghymru. Bydd yr adnoddau ychwanegol a ddarperir gan CAYC yn cyflymu datblygiadau yn Abertawe yn rhan o'r strategaeth dinas ddigidol newydd mewn partneriaeth â Chyngor y Ddinas. Mae'r cynllun yn cydblethu'n llwyr â'r fframwaith economaidd rhanbarthol.

Wrth ddatblygu'r ffurf ddiweddaraf ar gynnig Bargaen Ddinesig y Brifysgol ar gyfer Abertawe, mapiodd y Brifysgol ei phortffolios ymchwil a chyfnewid gwybodaeth allweddol yn ôl y pedair Her Fawr a nodir yn Strategaeth Ddiwydiannol y DU. Mae pob un o'r portffolios hyn yn canolbwyntio ar set benodol o broblemau, gan ddod â'r Brifysgol a'i phartneriaid busnes at ei gilydd i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl. Yn ogystal â'r clystyru hwn, nodwyd nifer o themâu trawsbynciol sy'n cysylltu â'r canolfannau craidd wrth fynd i'r afael â heriau mawreddog.

Mae strategaeth CAYC Y Drindod Dewi Sant yn cyd-fynd â Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026 Llywodraeth Cymru (diweddarwyd 7 Rhagfyr 2021) ac egwyddorion Sefydliad y Prifysgolion Dinesig. Mae'r Drindod Dewi Sant yn cydnabod bod y rhain yn hanfodol i ffyniant ein graddedigion ac economi ehangach Cymru yn y dyfodol. Gwelir pedair thema'r Sefydliad, sef mynediad a chadw, y brifysgol ddinesig, cyflogadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang wedi eu hadlewyrchu ym mlaenoriaethau strategol y Brifysgol.

- Blaenoriaeth 1: Rhoi Dysgwyr yn Gyntaf - Cynwysoldeb, drwy ddileu rhwystrau rhag cymryd rhan a chefnogi pobl o bob cefndir ac amgylchiad i gyflawni eu potensial. Drwy gynnig rhaglenni sy'n datblygu sgiliau entrepreneuriaidd a chreadigol, caiff dysgwyr y cyfleoedd gorau i gael gwaith ac i gyfrannu at ffyniant eu cymunedau.
- Blaenoriaeth 2: Rhagoriaeth mewn Addysgu, Ysgolheictod ac Ymchwil Cymhwysol.
- Blaenoriaeth 3: Y cysyniad o ddinasyddiaeth fyd-eang, drwy ddatblygu gweithgareddau a chyfleoedd amlwladol i'n dysgwyr, ein staff a'n partneriaid.
- Blaenoriaeth 4: Prifysgol Cymru - Datblygu cynaliadwy, drwy ymddwyn mewn ffordd sy'n sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

¹² <https://yregin.cymru/your-centre/>

Mae cydweithio â phrifysgolion a sefydliadau rhanbarthol eraill yn hanfodol er mwyn i Gymru lwyddo yn y cyfnod ar ôl Brexit. Gellir gweld effaith cydweithio yn y bartneriaeth Accelerate lwyddiannus rhwng Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd a Chanolfan Gwyddor Bywyd Cymru. Mae Accelerate ac Astute 2020 yn dystiolaeth bellach o'r pwysigrwydd y mae'r Drindod Dewi Sant yn ei roi i weithio tuag at amcanion y strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru wrth sicrhau effaith economaidd drwy wyddoniaeth a phartneriaeth.

7. Bodloni gofynion Concordat Cyfnewid Gwybodaeth y DU

Rhaid i sefydliadau yng Nghymru ddangos ymrwymiad ac aliniad ag egwyddorion Concordat Cyfnewid Gwybodaeth y DU drwy eu strategaethau CAYC. Bydd cam datblygu'n cael ei gynnal yn ystod 2020-21 er mwyn gweithredu model ar gyfer Cymru.

Ar gyfer y cam cychwynnol hwn, rydym yn gofyn i sefydliadau gadarnhau eu bod yn ymwybodol, drwy eu strategaethau, o egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth a amlinellwyd fel rhan o'r ymgyngoriaid cychwynnol, a'u bod yn ymrwymedig i alinio â'r egwyddorion drwy fodel Cymru ar gyfer ymgysylltu. Gellir cyflwyno strategaethau CAYC diwygiedig yn flynyddol fel rhan o'r weithdrefn fonitro, a chaiff y broses hon ei defnyddio i ddangos ymrwymiad llwyr i'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth yn dilyn y flwyddyn ddatblygu.

[Uchafswm o 500 o eiriau]

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo'n llwyr i egwyddorion ac uchelgeisiau a fynegwyd yng Nghoncordat Cyfnewid Gwybodaeth y DU. Drwy'r strategaeth hon a strategaethau eraill mae'r Brifysgol yn ymrwymo ymhellach i gefnogi datblygiad concordat Cymreig unigryw sy'n parchu gwahanol gyd-destun Cymru a'i chymunedau.

Fel y gwelir yn strategaeth CAYC, cyfnewid gwybodaeth yw un o elfennau allweddol y Cynllun Strategol sefydliadol (2017-2022). Mae gan y Brifysgol ddealltwriaeth glir o rôl a phwrpas cyfnewid gwybodaeth i'r sefydliad a chymdeithas.

Trwy waith tîm Llywodraethu Corfforaethol y Brifysgol mae gan Y Drindod Dewi Sant gyfres gynhwysfawr o strategaethau a pholisïau sy'n bwydo'n glir i'r egwyddorion a amlinellir yn y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth.

Mae polisïau ar gael i'r cyhoedd ac maent ar gael i'r holl staff. Mae digwyddiadau datblygu staff blynyddol a gefnogir gan ddigwyddiadau lledaenu yn ystod y flwyddyn yn sicrhau bod yr holl staff yn gyfarwydd â'r polisïau.

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd yn llawn â'r Cynlluniau Sefydliadol canlynol:

- Cynllun Strategol 2017-2022
- Strategaeth Mentergarwch a Masnacheiddio Grŵp Y Drindod Dewi Sant

- Polisi Eiddo Deallusol Staff
- Polisi Eiddo Deallusol Myfyrwyr
- Y Polisi Amgylchedd
- Y Strategaeth Gynaliadwyedd
- Y Cynllun Iaith Gymraeg

Mae gan y Brifysgol bwyntiau mynediad clir, dulliau ymgysylltu a pholisïau a ddatblygwyd i gyd-fynd ag anghenion ystod eang o fuddiolwyr sy'n gweithio gyda sefydliadau yn gyrrff a ariennir yn gyhoeddus.

Mae'r Brifysgol yn sicrhau bod ein partneriaid a'n buddiolwyr yn deall yr amgylcheddau moesegol a rheoleiddio y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddynt.

Mae staff academaidd a phroffesiynol yn ogystal â myfyrwyr ymchwil wedi'u hyfforddi i ddeall eu cyfrifoldebau ac i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn foesegol ac er budd y cyhoedd.

Mae polisïau wedi eu sefydlu i sicrhau bod y Brifysgol yn cydnabod cyflawniadau staff a myfyrwyr sy'n cyflawni gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnwys cydnabod digwyddiadau a mentrau allanol llwyddiannus yn gyhoeddus.

Yn fewnol, mae'r Brifysgol wedi sefydlu Cynhadledd Nexus i rannu arfer gorau ym mhob un o feysydd gweithgareddau'r Brifysgol sy'n effeithio ar genhadaeth graidd y Brifysgol i addysgu a thrawsnewid bywydau.

Rydym yn gymuned o ymarferwyr adfyfyriol. Ar lefel bersonol gwelir hyn yn aelodaeth a chymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch.

Ar lefel gorfforaethol, gwelir tystiolaeth o hyn drwy lunio adroddiadau blynyddol, adolygiadau ac archwiliadau allanol sy'n bwydo drwodd i welliant proffesiynol parhaus.

Mae'r hunanarfarnu a gynhaliwyd fel rhan o ymrwymiad y brifysgol i'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth (KEC) wedi nodi pum blaenoriaeth allweddol:

- Datblygu Polisi Cyfnewid Gwybodaeth
- Cwblhau Strategaeth Ymchwil ac Arloesi newydd 2021 -2027
- Cryfhau mynediad i arbenigedd Eiddo Deallusol.
 - Penodi Cyfarwyddwr Gweithredol Masnacheiddio a / neu swyddi eraill
 - Caffael gwasanaethau cyfreithiol neu ymgynghori allanol
- Sefydlu systemau rheoli ansawdd i fodloni a chyrraedd achrediad ISO 9001
- Cynlluniau DPP a hyfforddiant i'w gweithredu ar gyfer staff proffesiynol ac academaidd

Bydd gweithredu'r camau hyn yn gwella ymhellach allu'r Brifysgol i gyflawni ei hagenda uchelgeisiol ar gyfer newid trawsnewidiol.

8. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Rhowch wybodaeth benodol am sut bydd y strategaeth CAYC yn cefnogi'r saith nod, a'r pum ffordd o weithio a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
[Uchafswm o 250 o eiriau]

Bydd strategaeth CAYC yn cwmpasu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) drwy sicrhau effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i Gymru. Nod y strategaeth yw sicrhau effeithiau hirdymor, wedi'u hintegreiddio yn eu cymunedau cynhaliol drwy bartneriaethau cenedlaethol a rhyngwladol cydweithredol a blaengar sy'n atal effeithiau negyddol ar bobl, y blaned neu le.

Mae'r strategaeth yn gweithio'n unol ag egwyddorion y ddeddf i gyflawni'r saith nod llesiant:

- Cymru Lewyrchus – Cynyddu nifer y busnesau newydd yn ne-orllewin Cymru a phartneriaethau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n tyfu;
- Cymru Gydnerth – Integreiddio INSPIRE i'r gwaith craidd o ddarparu ymchwil a chyfnewid gwybodaeth er mwyn sicrhau bod datblygiadau'n mynd i'r afael â chynaliadwyedd ecolegol ac yn ogystal ag economaidd;
- Cymru sy'n fwy Cyfartal – Drwy ymgorffori mentergarwch ac arloesi yn y cwricwlwm craidd ar draws pob rhaglen er mwyn sicrhau bod pob myfyriwr yn cael y cyfle a'r hyfforddiant mewn meddwl creadigol a datrys problemau;
- Cymru Iachach – Defnyddir CAYC i gefnogi nifer o brosiectau ymchwil mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru;
- Cymru o Gymunedau Cydlynus – Mae'r strategaeth yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau ymchwil a chyfnewid gwybodaeth sy'n cysylltu cymunedau ledled de-orllewin Cymru;
- Cymru â Diwylliant Bywiog – Cefnogir cymorth ar gyfer ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg ochr yn ochr ag ymchwil i ddiwylliant bywiog Cymru;
- Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang – Cefnogir partneriaethau rhyngwladol trwy ymyriadau dethol mewn ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg.

Un enghraifft o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith a gydnabyddir yn Adolygiad Reid yw gwaith y Brifysgol gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar droseddu, plismona a chymunedau diogel ac wrth wneud hynny mae'n mynd i'r afael â'r nod o sicrhau 'Cymru o Gymunedau Cydlynus'.

9. Effaith ar y Gymraeg

Amlinellwch yr effaith gadarnhaol y caiff buddsoddiad CAYC ar gyfleoedd i ddefnyddio a chefnogi'r Gymraeg. Lle bo'n briodol, efallai y byddwch am gyfeirio at y themâu yng nghynllun gweithredu Cymraeg 2050.

[Uchafswm o 250 o eiriau]

Yn unol â chynllun gweithredu 2019–20 'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr ' nod strategaeth CAYC yw hwyluso'r gwaith o brif ffrydio'r Gymraeg ar draws yr holl weithgareddau ymchwil a chyfnewid gwybodaeth. Gan gymryd y themâu a nodwyd yn y cynllun Cymraeg 2050 fel canllaw:

1. Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
2. Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
3. Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

Bydd y cynllun yn adeiladu ar y gwaith llwyddiannus ar lefel israddedig yng Ngholeg Celf Abertawe o fewn Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru drwy nodi mentoriaid i gefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg. Mae'r strategaeth yn nodi'r cyfleoedd i ehangu effaith ymchwil a chyfnewid gwybodaeth drwy roi cymorth a chyfle i ymchwilwyr weithio yn eu hiaith gyntaf. Mae'r fenter wedi denu cefnogaeth gref gan y **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**.

Mae gan y Brifysgol gymuned gref iawn o siaradwyr Cymraeg yng Nghaerfyrddin a Llambled. Mae'r strategaeth yn rhoi cymorth ar gyfer dileu rhwystrau rhag defnyddio'r Gymraeg yng nghyd-destun prosiectau cyfnewid gwybodaeth drwy ddarparu offer cyfieithu a deunyddiau dwyieithog priodol.

Byddwn yn gweithio i feithrin a chynnal partneriaethau ymchwil yng Nghymru a thu hwnt, drwy gyflwyniadau mewn cynadleddau a digwyddiadau cyhoeddus pan fo'n bosibl.

Mae staff ychwanegol sy'n siarad Cymraeg wedi'u penodi i gefnogi busnesau newydd gan raddedigion a busnesau deillio gan staff a chaiff canolfan ddeori newydd ei sefydlu yng Nghaerfyrddin yn ystod 2021-22

Bydd y strategaeth yn bwydo i mewn i adroddiadau'r Brifysgol ar Fesurau Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg fel y bo'n briodol.

Adran D: sicrwydd ariannol 10. Defnyddio cyllid Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

Sut mae eich dyraniad CAYC ar gyfer 2020/21 yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r strategaeth a amlinellwyd yn Adran B, a beth yw'r blaenoriaethau a ragwelir gennych ar

gyfer defnyddio cyllid CAYC dros y blynyddoedd nesaf? [Uchafswm o 250 o eiriau – neu rhowch dabl sy'n amlinellu meysydd buddsoddi bras ynghlwm wrth y ddogfen hon]

Wrth i ni ddod allan o bandemig Covid-19, mae'r Drindod Dewi Sant yn parhau'n ymrwymedig i fuddsoddi cyllid CAYC a chyflawni'r amcanion craidd a amlinellir yn y strategaeth a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020. Bydd y Brifysgol yn parhau i fuddsoddi grant capasiti i sicrhau twf y Sefydliad Arfer Cynaliadwy, Arloesi, Ymchwil a Menter (INSPIRE) sydd newydd ei ffurfio.

Mae penodi **Cyfarwyddwr Gweithredol Masnacheiddio newydd** i arwain INSPIRE ynghyd â'r penodiadau ychwanegol, Swyddogion Cyswllt Diwydiant a Swyddogion Datblygu Ymchwil, yn rhan allweddol o'r strategaeth dwf gyda'r nod o gynyddu buddsoddiad mewn masnacheiddio Eiddo Deallusol.

Yn 2021/22 bwriad y Brifysgol yw cynnal buddsoddiad mewn canolfannau allweddol megis gweithgynhyrchu, adeiladu a chyfrifiadura i gefnogi adfywio economi Cymru. Bydd canolbwyntio buddsoddiad yn hyn o beth yn cynnwys integreiddio canolfannau cyfnewid gwybodaeth yn ddisgyblaethau STEM. Bydd y Brifysgol yn buddsoddi mewn cefnogi ymchwil i dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog Cymru a ffurfio partneriaethau newydd yn rhyngwladol megis gyda Tknika yn Rhanbarth y Basg.

Yn 2021/22 bydd CAYC yn parhau i gael ei ddyrannu yn ôl y cyfrannau canlynol yn fras:

- 30% i gynyddu'r cymorth i staff a/neu fentrau a arweinir gan fyfyrwyr a masnacheiddio ED;
- 40% i gefnogi grwpiau ymchwil presennol, fel y rhai a nodwyd yn adolygiad Reid, sy'n trosglwyddo o ddibyniaeth grantiau i ddod yn ganolfannau ymchwil a chyfnewid gwybodaeth sy'n cynhyrchu incwm;
- 30% i gefnogi ymgysylltu agosach â busnes a chymdeithas ddinesig yn ein trefi a'n dinasoedd campws.

Caiff penderfyniadau buddsoddi eu llywio gan strategaeth ymchwil ac arloesi newydd a chynllun ariannol treigl 4 blynedd cynhwysfawr i ddarparu sefydlogrwydd ac atebolrwydd.

Adran E:

Gofynion rheoliadol

Noder: Gallai CCAUC ofyn am wybodaeth / eglurhad pellach ar unrhyw un o'r meysydd hyn

i) Safonau'r Gymraeg
(2018)

Cylchlythyr CCAUC W20/09HE: Atodiad B

<i>[Defnyddiwch y gwymplen]</i>	Mae'r strategaeth hon yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2018
ii) Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb <i>[Defnyddiwch y gwymplen]</i>	Mae'r strategaeth hon wedi'i Sgrinio o ran ei Heffaith ar Gydraddoldeb
iii) <u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)</u> <i>[Defnyddiwch y gwymplen]</i>	Bydd y strategaeth hon yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
Llofnod: Is-Ganghellor	
Dyddiad	17/01/2022